CYNIGION CYFARFOD CYFFREDINOL CYMDEITHAS YR IAITH

CYNIGION ADDYSG

1. CYMREIGIO COLEGAU ADDYSG 14 – 19 OED

Tra'n croesawu'r bwriad (a gynhwysir ym Mesur drafft Dysg a Sgiliau'r Llywodraeth) i gydlynu adnoddau ysgolion a cholegau i sicrhau ystod eang o addysg 14 - 19 oed yn yr ardaloedd gwledig, mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am adnoddau i sicrhau cynnydd buan yng ngallu'r Colegau i gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel arall, caiff llawer o fyfyrwyr presennol llai o gyfle yn yr oedran hwn i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cynigydd: Sioned Elin
Eilydd: Angharad Clwyd

2. YR YMGYRCH DROS GOLEG FFEDERAL CYMRAEG

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- Fod datblygiadau pwysig wedi eu cymryd dros y misoedd diwethaf
- Fod Pwyllgor Llywio'r Coleg Ffederal Cymraeg yn eang ei aelodaeth ac felly yn llawn botensial.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- Ein bod yn pwyso ar y gwleidyddion i symud yn gyflym tuag at sefydlu'r Coleg Ffederal Cymraeg rhag ofn y bydd yr hinsawdd wleidyddol yn newid, ac y byddwn yn colli'r cyfle.
- Ein bod i bwyso ar aelodau Pwyllgor Llywio"r Coleg Ffederal Cymraeg i gadw ein pedwar egwyddor graidd fel sylfaen i'r trafodaethau a'r cynllunio.
- Ein bod i annog ein Celloedd yn ein Prifysgolion ynghyd â'r Undebau Myfyrwyr i bwyso ar eu Prifysgolion unigol i gefnogi yn hytrach na llesteirio gwaith y Pwyllgor Llywio.

Cynigydd: Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

3. GALWAD AR LYWODRAETHWYR CYMRU

Mae Cymdeithas yr iaith Gymraeg yn galw ar Fyrddau Llywodraethol drwy Gymru i ddal ar y cyfle (yn rheoliadau newydd Llywodraeth y Cynulliad) i ffurfio cynlluniau ar gyfer addysg yn eu hardaloedd yn lle disgwyl galwad gan yr Awdurdod Addysg Leol. Gallai'r Cynlluniau gynnwys ffederasiynau ar newydd wedd gan gadw hunaniaeth yr ysgolion, cydweithio gydag Ysgolion Uwchradd, neu gynnal y drefn bresennol. Credwn y dylai biwrocratiaid Awdurdodau Lleol ymgyfyngu i rymuso a hwyluso pobl yn eu cymunedau lleol i greu cynlluniau sy'n addas iddyn nhw.
Cynigydd: Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

CYNNIG YMGYRCH CYMUNEDAU RHYDD

4. HAWL I RENTU

Cred y Cyfarfod Cyffredinol ei bod yn anos nac erioed i bobl ifanc aros yn eu cymunedau yn y sefyllfa economaidd o ganlyniad i anhawster cael morgeisi, a'r prinder tai ar rent, a bod hyn yn parhau i filwrio yn erbyn goroesiad a datblygiad cymunedau Cymraeg hyfyw. Cred y Cyfarfod Cyffredinol bod pwyslais polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar dai fforddiadwy yn amherthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol. Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar Llywodraeth y Cynulliad i ail ystyried eu polisi ar dai fforddiadwy, gan roi pwyslais yn hytrach ar sicrhau Hawl i Rentu i bobl ifanc lleol sydd am aros yn eu cymunedau. Ymhellach, galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar Lywodraeth y Cynulliad i fanteisio ar brisiau isel y farchnad dai presennol ac i roi cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol i gynyddu eu stoc o dai cyngor, gan roi blaenoriaeth i ddarpar -denantiaid lleol. Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol y Grŵp Cymunedau Rhydd i drefnu ymgyrch ar sail hyn.
Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Cymunedau Rhydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

CYNNIG YR YMGYRCH DEDDF IAITH

5. SIOM YN LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod Deddf Iaith newydd yn rhan un o'r addewidion a geir yn nogfen Cymru'n Un.
Noda ymhellach siom yn y llywodraeth am nad oes cyhoeddiad wedi'i wneud ynglŷn â'r gorchymyn cymhwyso ar yr iaith.
Cred y Cyfarfod Cyffredinol fod angen deddf iaith gynhwysfawr a fydd yn sicrhau tri pheth:

- Hawliau i unigolion i siarad Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd, gan gynnwys yn y sector breifat;
- Fod yr iaith Gymraeg yn cael statws swyddogol yng Nghymru;
- Creu swydd Comisiynydd Iaith a fydd yn sicrhau gweithredu'r ddau bwynt uchod.

Fel rhybudd olaf, galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar Lywodraeth y Cynulliad ac i lywodraeth San Steffan weithredu a chyhoeddi'u bwriadau ar gyfer Deddf Iaith newydd yn cynnwys y tair elfen yma cyn gynted ag y bo modd.
Cynnig: Grŵp Ymgyrch Deddf Iaith Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

CYNIGION CYFFREDINOL

6. CYFARFOD CYFFREDINOL SYMUDOL

Cynigiwn fod y Cyfarfod Cyffredinol yn symud bob blwyddyn rhwng Aberystwyth, Caerdydd a Chaernarfon. Bydd hyn yn hwb i'r mudiad ac yn fodd i ni hybu gweithgaredd y Gymdeithas yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De.
Cynigiwn hefyd mai cyfrifoldeb swyddogion y Senedd yw chwilio am ganolfannau penodol yn y tri lleoliad newydd yn fuan, os pleidleisir dros y cynnig hwn.
Cynigydd: Osian Jones
Eilydd: Steffan Cravos

7. CYMRU WERDD

Cynigiwn fod Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn mynd ati i lunio polisïau gwyrdd ac amgylcheddol, fydd yn ymwneud â holl weithgarwch y Gymdeithas yn weinyddol ac o ran ymgyrchu.
Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

8. CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cynigiwn fod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meirion a'r Cyffiniau 2009, nid yn cyfyngu gwaith cenhadu'r mudiad i'r uned ar y Maes a'r gigs gyda'r nos yn unig. Ond ein bod yn mynd allan at y nifer helaeth o Eisteddfodwyr nad ydynt ar y Maes boed hynny ym Maes B, Y Gorlan Goffi neu ar y Stryd Fawr yn y Bala.
Cynigydd: Osian Jones
Eilydd: Delyth Evans

NODER HEFYD Y BYDD CYNNIG YN DEILLIO O'R DRAFODAETH AR Y SIN CERDDOROL YNG NGHYMRU.